**PWYLLGOR ARCHWILIO 12-03-09**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gwilym Williams (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, Huw Edwards, T.G. Ellis, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Dafydd Ll. Hughes, Aeron Jones Charles W. Jones, R.L. Jones, Eryl Jones-Williams, John P. Roberts a Gethin Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dewi R. Jones (Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion), Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Cyfadran Datblygu), Kevin Thomas (Partner Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Brian Jones

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir –

Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn yr eitemau yn ymwneud â thai Cyngor a materion gofal ac anableddau y Gwasanaethau Cymdeithasol gan ei fod yn denant tŷ Cyngor a bod ei wraig sy'n anabl yn derbyn gofal cymdeithasol.

Y Cynghorydd Dafydd Ll. Hughes yn yr eitem yn ymwneud â chanolfannau dydd a gweithdai anabledd dysgu Ardal Dwyfor gan ei fod yn nyrs cymunedol – anabledd dysgu.

'Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

Datganodd y Cynghorydd T.G. Ellis fuddiant personol yn yr eitem frys sef sefyllfa gyllidol Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon gan bod ei fab yn athro yn yr ysgol

'Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod ei wraig yn gyflogedig yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, ond derbyniodd gyngor gan y Swyddog Monitro i ddatgan buddiant personol yn y mater ond i aros yn bresennol yn y cyfarfod a sylwebu fel bo angen er mwyn cyflawni ei ddyletswydd fel swyddog cyllid statudol ynghylch mater ariannol.

## 2. MATER BRYS – SEFYLLFA GYLLIDOL YSGOL SYR HUGH OWEN

(Trafodir y mater hwn ar ddiwedd y cyfarfod)

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2008, fel rhai cywir.

## 4. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 28 Chwefror 2009**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Rhagfyr 2008 a 28 Chwefror 2009. Wrth gyflwyno’r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 10 o adroddiadau ffurfiol am archwiliadau o’r cynllun archwilio blynyddol gyda’r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 4 archwiliad pryd y cynhyrchwyd memoranda, yn hytrach nag adroddiad llawn.
- 2 archwiliad dilyniant.

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. ‘Roedd hyn yn cynnwys 11 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 41 o archwiliadau sy’n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i’r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Gwaredu Eiddo’r Cyngor – Cyfadran Adnoddau**

Gofynnodd aelod am eglurhad pellach ar brif ddarganfyddiadau’r archwiliad.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod gan y Cyngor sawl eiddo/tiroedd yn ei feddiant a bod angen gwaredu rhai nad oes defnydd iddynt. Cymerwyd sampl o saith gwarediad er sicrhau bod y trefniadau yn dryloyw a chlir o fewn y Gwasanaeth Gofal Cwsmer. ‘Roedd angen sicrhau hefyd bod y pris a dderbynnir amdanynt yn dêg. Derbyniodd yr archwiliad Barn B oherwydd bod trefniadau cadarn yn eu lle yn arbennig o safbwynt y prif risgiau sef bod y pris yn adlewyrchiad teg o bris y farchnad. ‘Roedd o’r farn y dylid tynhau un cymal yn y polisi gwaredu eiddo er sicrhau cysondeb a thryloywder.

Mewn perthynas â throsglwyddo’r stoc tai Cyngor i gwmni arall, gofynnodd aelod os oedd gwirionedd yn y ffaith bod y cyfan o’r tiroedd perthnasol hefyd yn cael eu trosglwyddo i’r cwmni. Cytunwyd i drosglwyddo’r mater i sylw’r Pennaeth Tîm Prosiect Pleidlais Stoc Tai er ei gynnwys yn yr adroddiad a gyflwynir i’r Cyngor ar ganlyniad y bleidlais.

Cyfeiriodd aelod at y ffaith y dylai dogfennau cyfreithiol parthed trosglwyddo unrhyw eiddo, tir a.y. o un awdurdod i’r llall nodi yn hollol glir beth yw’r hawliau/cyfrifoldebau a drosglwyddir.

**Pridiannau Tir – Cyfadran Adnoddau**

Gofynnodd aelod pam bod yr archwiliad hwn wedi derbyn Barn B er bod pump o argymhellion y dylid gweithredu arnynt.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risgy daethpwyd i'r casgliad bod Barn B yn briodol yn yr archwiliad hwn oherwydd bod angen gwella a thynhau ar rai o'r trefniadau. 'Roedd o'r farn nad oedd colled i'r Cyngor ac nad oedd lefel y risg yn gwarantu Barn C.

**Cydymffurfiaeth â Rheoliadau Construction Design Management (CDM) – Cyfadran yr Amgylchedd**

Gofynnodd aelod am eglurhad pellach ar yr archwiliad hwn.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod nifer fawr o bwyntiau yn y Rheoliadau Construction Design Management sydd angen i Ymgynghoriaeth Gwynedd eu dilyn os y defnyddir y broses hon. 'Roedd o'r farn, o ystyried y nifer o reoliadau sydd gan y Cyngor, y gwnaed gwaith clodwiw gan y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.

**Costau Gweithwyr Cefnogol – Cyfadran Gofal**

Cyfeiriodd aelod at y ffaith bod y prif argymhellion wedi eu dynodi yn "Uchel" yn y cynllun gweithredu ac angen sylw buan. 'Roedd amryw o'r materion hyn yn achosi pryderon i bobl gan eu bod yn faterion dwys a difrifol. 'Roedd o'r farn y dylid cyflwyno adroddiad dilyniant i'r pwyllgor cyn gynted â phosibl.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, gan mai Awst 2009 oedd amserlen gytunedig mwyafrif yr argymhellion yn y cynllun gweithredu y byddai'n fwy addas i gyflwyno adroddiad dilyniant i bwyllgor mis Medi 2009.

**Prosesu Costau Teithio Cyfadran yr Amgylchedd**

Gofynnodd aelod pryd y rhoddir ystyriaeth pellach i'r mater hwn.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ei fod yn fodlon bod cynnydd yn cael ei wneud i'r cyfeiriad cywir.

Mewn perthynas â rheoli fflyd cerbydau'r Cyngor, cyfeiriodd aelod arall at adroddiad a baratowyd gan y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol a oedd yn cyfeirio at arbedion o £250,000 y gallai'r Cyngor ei wneud drwy benderfynu pwy o staff y Cyngor sydd angen cerbyd y Cyngor. Deellir bod gan y Cyngor oddeutu 600 o gerbydau yn ei fflyd a bod y mwyafrif o'r defnyddwyr yn eu defnyddio o'r man gwaith i'w cartref.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yr edrychwyd ar sut y rheolir y fflyd o ran gweinyddu mewn archwiliad a dilyniant yn gynharach eleni, ond rhoddir ystyriaeth mewn archwiliad yn y maes yn 2009/10 i adolygu'r achos busnes dros maint a natur y fflyd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Rhagfyr 2008 i 28 Chwefror 2009 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

## 5. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2008/09

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2008/09.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 28 Chwefror 2009 yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy'n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 21 |
| Crewyd papurau gwaith | 2 |
| Gwaith maes ar y gweill | 37 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 3 |
| Adroddiad drafft | 10 |
| Adroddiad terfynol | 41 |
| Cyfanswm | **114** |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2008/09 yw bod 95% o'r rhaglen waith yma yn cael ei gyflawni.

Tynnwyd sylw ymhellach gan y swyddog bod y tabl yn dangos bod 37 o'r archwiliadau (32%) wedi eu nodi fel bod â “Gwaith Maes ar y Gweill”. a bod 21 archwiliad pellach allan o'r 114 (18%) yn parhau i gael eu nodi fel bod “Wedi ei Gynllunio”. Fel rhan o drefniadau cynllunio gwaith 2009/10, rhoddodd fanylion am yr archwiliadau o gynllun 2008/09 nad oedd yn debygol o gael eu cwblhau ond sydd wedi eu cynnwys yng nghynllun drafft 2009/10. Hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, petai'r archwiliadau eraill i gyd yn cael eu cwblhau, byddai'r targed o 95% yn cael ei gyrraedd, gyda 109 o'r 114 archwiliad yn y cynllun wedi ei gyflawni.

Rhoddodd fanylion am fân addasiad a wnaed i'r cynllun ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor.

Mewn perthynas â thechnoleg gwybodaeth, cyfeiriodd aelod at y ffaith y dylid annog yr aelodau i wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth drwy ddefnyddio cliniaduron a fyddai'n creu arbedion i'r Cyngor o safbwynt defnydd papur.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2008/09.**

## 6. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2009/10

Cyflwynwyd adroddiad yn rhoddi manylion am gynllun drafft o waith yr Adain Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2009/10 fel y gallai'r aelodau leisio barn arno a'i gymeradwyo.

Eglurodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2006 yn datgan y "dylai'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo, ond nid cyfeirio, y cynllun archwilio". Mae'r adroddiad yn egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses dechnegol a ddefnyddiwyd wrth drefnu'r cynllun cyn ei gyflwyno i'r pwyllgor.

Yn y cyfarfod ar 20 Rhagfyr 2007, cyflwynwyd Strategaeth Archwilio Mewnol 2008-2011 drafft i'r Pwyllgor Archwilio. Defnyddir y strategaeth yma fel sail i waith Archwilio Mewnol am y cyfnod dan sylw ac mae'n egluro sut y bydd gwaith Archwilio Mewnol yn cynnig sicrwydd am y rheolaethau mewnol sydd yn eu lle o fewn Cyngor Gwynedd.

Eglurodd y swyddog ymhellach bod rhannau o'r Strategaeth Archwilio Mewnol yn dangos sut y dewisir rhannau penodol o waith i'w cynnwys yn y cynllun archwilio blynyddol. Tynnwyd sylw arbennig at y penawdau canlynol -

- Systemau Ariannol Sylfaenol
- Grantiau
- Archwiliadau sy'n rhan o amodau cyllido
- Ysgolion
- Canolfannau Hamdden
- Contractau
- Gwaith Gwrth-Dwyll
- Rheoli Prosiectau
- Llywodraethu Corfforaethol

Lluniwyd gweddill y cynllun trwy ystyried gweithgareddau pob uned fusnes o fewn yr awdurdod a chynnal asesiad risg ar y gweithgareddau hyn er mwyn adnabod meysydd i'w harchwilio.

Bydd angen 1,573 diwrnod o adnoddau archwilio i gwblhau'r cynllun archwilio. Yn ychwanegol, gosodwyd y darpariaethau canlynol yn rhan o'r cynllun –

- Darpariaeth ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb 64 diwrnod
- Darpariaeth ar gyfer gwaith ymatebol 132 diwrnod
- Darpariaeth ar gyfer dilyniant 140 diwrnod

Eisoes derbyniodd y cynllun drafft gymeradwyaeth y Pennaeth Cyllid a chynhelir trafodaethau ar hyn o bryd gyda'r penaethiaid gwasanaeth eraill a'r rheolwyr perthnasol

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2009 i 31 Mawrth 2010 yn ddarostyngedig i fân addasiadau i'w gwneud gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg, mew ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid, yn deillio o drafodaethau pellach gyda swyddogion.**

## 7. CYNLLUN RHEOLEIDDIO SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU AR GYFER CYNGOR GWYNEDD 2008/09 – AGWEDDAU ARIANNOL

Cyflwynwyd Cynllun Rheoleiddio 2008/09 Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd.

Tynnodd Partner Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru sylw at yr agweddau canlynol o'r cynllun –

a) Rhagarweiniad ynglyn â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru yng Nghyngor Gwynedd.
b) Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon Cyngor Gwynedd.
c) Archwiliad ac ardystiad Swyddfa Archwilio Cymru o hawliadau grant.
ch) Rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys dyletswyddau statudol archwilwyr penodedig a chyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu dan ISA 260.

Cyfeiriodd at y ffaith y cyflwynir y cynllun hefyd i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol er cael trafodaeth ar yr agweddau gwerth am arian, archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor, archwiliad o berfformiad, arolygiadau ar wahan i'r archwiliad ariannol a gwaith arall Swyddfa Archwilio Cymru.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid ei fod wedi cael cyfle i roddi sylwadau ar yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

## 8. MATER BRYS – SEFYLLFA GYLLIDOL YSGOL SYR HUGH OWEN, CAERNARFON

(Nid oedd yr eitem hon wedi ei chynnwys ar raglen y pwyllgor, ond cytunodd y cadeirydd ei chynnwys dan Adran 100B (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd i'r mater ddod i sylw drwy'r wasg ar ôl i'r rhaglen gael ei hanfon at yr aelodau a bod angen trafodaeth cyn y cyfarfod nesaf er mwyn gwyntyllu'r materion a gyhoeddwyd)

Adroddodd y Cynghorydd Aeron Jones bod y mater hwn wedi creu cryn bryder iddo yn enwedig o deall nad oedd Ysgol Syr Hugh Owen wedi gofyn am y swm o £150,000. Nid oedd yn anghytuno i roddi arian i unrhyw ysgol sydd angen cymorth ond anghytunodd gyda'r modd y gwnaed hynny. 'Roedd yn lywodraethwr ar ddwy ysgol a oedd yn wynebu trafferthion ariannol.

Tynnodd sylw at adroddiad ESTYN a oedd yn cyfeirio at y ffaith bod nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi gostwng ac felly 'roedd yn anorfod y collir swyddi yno. Ar hyn o bryd 'roedd 55 o staff llawn amser yn yr ysgol. 'Roedd hynny'n wir am un ysgol lle yr oedd yn lywodraethwr a oedd yn gorfod gwneud arbedion o £12,000. Cyfeiriodd hefyd at gymal yn yr adroddiad lle yr oedd yr arolygwyr yn canmol yr addysg ond yn gweld diffyg yn rheolaeth y cyn-lywodraethwyr a'r cyn-brifathro.

'Roedd yn anfodlon y caniatawyd i'r ysgol redeg ar ddyled gan mai'r llywodraethwyr a'r pennaeth sy'n gyfrifol am gyllid yr ysgol. Ar y cyfan mae'r Bwrdd Llywodraethol presennol yn gweithredu'n eithaf da. 'Roedd yn anfodlon hefyd bod y £150,000 wedi ei roddi i'r ysgol heb iddo gael ystyriaeth gan un o bwyllgorau'r Cyngor. Cyfeiriodd at benderfyniad Bwrdd y Cyngor ar 3 Mehefin 2008 i roddi £108,000 o'r tanwariant o £401,000 mewn cronfa wrth gefn benodol i hwyluso gweithrediad priodol wrth ymateb i broblemau eithriadol mewn ysgolion unigol, yn unol â chais y Gwasanaeth Ysgolion.

Cyfeiriodd hefyd at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru parthed ariannu addysg yng Nghymru. Dengys yr adroddiad bod Gwynedd yn 19 allan o 22 yng Nghymru am wario arian IBA ar addysg. 'Roedd o'r farn, oherwydd y tanwariant yn yr arian a dderbynnir gan y Cynulliad, y dylai'r Gwasanaeth Ysgolion fuddsoddi arian ar gyfer yr ysgolion hynny sydd wir ei angen.

Mewn ymateb i'r uchod, cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion y sylwadau canlynol –

- Rhoddwyd £150,000 i'r ysgol er mwyn galluogi'r Cyngor i osgoi costau diswyddo diangen ac o ganlyniad fe reolwyd cyllideb 2008/09 gan yr ysgol a gosodwyd cyllideb 2009/10 yn ddoeth
- Bod yr Awdurdod ar hyd y blynyddoedd wedi arddel yr awydd a'r parodrwydd i gydweithio gyda ysgolion. Mae hon yn egwyddor bwysig.
- Yn ystod y blynyddoedd diwethaf wynebodd yr ysgol ostyngiad eithaf sylweddol yn nifer ei disgyblion, ac o ganlyniad bu gostyngiad cyfatebol yng nghyllideb yr ysgol. Cyn i'r duedd hon gael ei rheoli, penderfynwyd rhoddi'r arian i'r ysgol er mwyn iddi osgoi gweithredu rhai diswyddiadau staff yn ychwanegol at y diswyddiadau hynny 'roedd angen eu gwneud er mwyn creu cyllideb gytbwys hir dymor. Gwelid y diswyddiadau ychwanegol fel rhai diangen am gyfnod o flwyddyn efallai cyn i'r ysgol fod mewn sefyllfa i benodi athrawon wedyn.

  Oherwydd mai'r Cyngor yw'r cyflogwr, 'roedd rhoddi'r arian i'r ysgol yn fodd o osgoi costau diswyddo diangen, ac yn bwysicach na hynny hyd yn oed, llwyddwyd i osgoi tarfu ac aflonyddu ar raglen addysgol yr ysgol ac amodau dysgu'r disgyblion. 'Roedd rhoddi'r arian i'r ysgol yn llawer gwell defnydd o arian yn hytrach na gwario swm o gyllideb y Cyngor ar gostau diswyddo.
- Defnyddiwyd arian o gronfa wrth gefn sydd gan y Cyngor i weithredu'n briodol wrth ymateb i broblemau ariannol eithriadol mewn ysgolion unigol. Yng nghyfarfod Bwrdd y Cyngor ar 3 Mehefin 2008, cyfeiriwyd ychydig tros £200,000 i'r gronfa hon y llynedd wrth drafod y cyfrifon terfynol.
- Gan bod y gronfa wrth gefn hon yng nghyllideb y Gwasanaeth Ysgolion, awdurdodwyd y gwariant hwn gan y Pennaeth Gwasanaeth ar sail yr angen eithriadol yn yr ysgol. Gwnaed y penderfyniad yn dilyn trafodaethau rhwng y swyddogion perthnasol, pennaeth yr ysgol ac aelodau o'r corff llywodraethol yn ystod Mehefin 2008. Crybwyllwyd y posibilrwydd o ddyraniad ychwanegol i'r ysgol am y tro cyntaf mewn cyfarfod gyda phennaeth newydd yr ysgol ar 16 Mehefin 2008 a rhyddhawyd yr arian i'r ysgol ganol Rhagfyr 2008.
- Bod profiad blaenorol yr Awdurdod yn dangos bod yna ddarparu adnoddau cyllidol ychwanegol wedi digwydd mewn eithriadau pan fernid bod amgylchiadau yn rhai argyfyngus.
- Ar ôl i gorff llywodraethu'r ysgol gymryd camau rheolaethol priodol er mwyn lleihau ei gostau, gan gynnwys nifer sylweddol o ddiswyddiadau gwirfoddol mewn blynyddoedd diweddar, mae gan yr ysgol reolaeth dynn ar ei chyllideb ac ni fydd unrhyw ddiswyddo gorfodol yno eleni.
- Yn adroddiad ESTYN ar yr ysgol yn Hydref 2008, nodir y canlynol wrth i'r arolygwyr adrodd am y defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau'r ysgol a gwerth am arian -

  *"Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, penderfynodd y corff llywodraethol, wedi ymgynghori â'r Awdurdod Unedol, fabwysiadu cyllideb gyda diffyg cynlluniedig. Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn arfer cyllidol da gan y Comisiwn Archwilio. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn cydweithio'n agos iawn â'r Awdurdod i ddatrys ei sefyllfa o orwariant ac wedi dod i gytundeb ar y dull mwyaf priodol o weithredu. Gan ystyried y sefyllfa*

*yn ei chyfanrwydd, o safbwynt safonau cyflawniad da'r disgyblion a'r myfyrwyr, ansawdd da'r addysgu, y ddarpariaeth gwricwlaidd dda, ansawdd da'r gefnogaeth a'r arweiniad i'r disgyblion a staff, mae'r ysgol yn rhoddi gwerth da am arian."*

- Bod yr Awdurdod yn gofidio bod y sylw cyhoeddus diweddar a roddwyd i'r ysgol wedi creu'r canfyddiad bod yna broblemau difrifol yn yr ysgol a allai gael effaith ar ansawdd yr addysg a ddarperir i'r disgyblion. Nododd nad oes yna ddim byd sy'n bellach o'r gwir a dymunodd yn dda i'r ysgol, y pennaeth a'r llywodraethwyr wrth iddynt frwydro'n ôl i sicrhau bod enw da'r ysgol yn cael ei adfer a'i gadarnhau yng ngolwg y gymuned mae'n ei wasanaethu.
- Bod penaethiaid yr ysgolion uwchradd eraill yng Ngwynedd a grŵp ymgynghorol ffederasiwn prifathrawon yn cefnogi'r camau a nodir uchod.

Ynglyn ag achosion gyda chyllideb mewn diffyg, hysbysodd y Pennaeth Cyllid fod amgylchiadau Ysgol Syr Hugh Owen yn eithriadol, ond nid oedd statws cyllideb ysgol mewn diffyg yn sefyllfa unigryw. Ar 31 Mawrth 2008, 'roedd 6% o'r ysgolion yng Ngwynedd ac 11% o'r ysgolion yng Nghymru yn yr un sefyllfa.

Ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid drwy gyfeirio at y gostyngiad yn nifer y disgyblion tros gyfnod o 5 mlynedd a bod hynny wedi lleihau dyraniad cyllidebol yr ysgol. Wrth roddi'r dyraniad ychwanegol hwn, byddai'r Cyngor yn osgoi gwariant arall gan y Gwasanaeth Ysgolion. Pan ddiswyddir staff, mae costau sylweddol iawn ynghlwm â rhyddhau pensiwn yn gynnar a chostau diswyddo, a'r Cyngor yn "y canol", nid cyllideb ddirprwyedig yr ysgol fyddai wedi gorfod ariannu'r costau diswyddo diangen rheiny.

Adroddodd Rheolwr Cyllid Cyfadran Datblygu bod y sector uwchradd, oherwydd lleihad yn nifer y disgyblion a'r toriadau gan y Cyngor wedi wynebu lleihad o tua 7% yn eu cyllid. 'Roedd yr ysgol hon wedi wynebu lleihad o 28% yn nhermau cyllidol. Cyfeiriodd at y newid yn nhalgylch yr ysgol a oedd wedi achosi lleihad yn nifer y disgyblion a fynychai'r ysgol gan bod y rhieni yn dewis anfon eu plant i ysgolion eraill cyfagos. Ffactor arall oedd y lleihad yn setliad 2008/09 i'r ysgol a deellir gan APADGOS y bydd toriad o 7.4% yn setliad 2009/10. 'Roedd o'r farn ei bod yn amhosibl i'r Cyngor osgoi gwariant yn yr achos hwn. Gellid fod wedi diswyddo pump athro am gyfnod o flwyddyn er darganfod y benthyciad ac yna eu hailgyflogi. Cadarnhaodd mai cyfraniad unwaith ac am byth oedd hwn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.30pm